

Bwrdd Cynggori Cenedlaethol AGC Recriwtio Cadeirydd Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Hydref 2026

1. Arolygiaeth Gofal Cymru

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru. Mae gwasanaethau a gaiff eu rheoleiddio a'u harolygu gan AGC yn cynnwys:

- Gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant)
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau eirioli
- Gwarchodwyr plant
- Gofal Dydd (gan gynnwys Chwarae) i blant o dan ddeuddeg oed

Mae AGC yn arolygu ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl a cholegau addysg bellach sy'n lletya myfyrwyr dan 18 oed. Rydym hefyd yn arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn cynnal adolygiadau cenedlaethol i fonitro perfformiad gwasanaethau.

Mae AGC yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ond mae'n gweithredu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Bob blwyddyn, mae AGC yn cyhoeddi [adroddiad blynyddol](#) yn nodi ei chanfyddiadau allweddol o'r broses o reoleiddio, arolygu ac adolygu gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, ac yn adrodd ar sut y cyflawnodd ei swyddogaethau.

Mae 282 o aelodau o staff yn rhan o AGC, sydd wedi'u lleoli ledled Cymru, yn gysylltiedig â thair swyddfa – Caerfyrddin, Cyffordd Llandudno a Merthyr Tudful.

2. Y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol

Mae'r [Bwrdd Cyngori Cenedlaethol](#) (y Bwrdd) yn rhoi cyfle i bobl fynegi eu barn am y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau o bob rhan o'r sectorau gofal plant, gofal cymdeithasol a gwirfoddol yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys gofawyr, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio.

Mae'r Bwrdd yn cynnig arbenigedd a chynghor er mwyn ein helpu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant er llesiant pobl Cymru. Mae hefyd yn ein helpu i bennu ein [blaenoriaethau strategol](#); mae'n monitro ac yn

herio ein lefelau cyflawni a pherfformiad; ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith.

Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd wedi'i atodi yn **Atodiad A**.

3. Rôl y Cadeirydd

Dylai'r Cadeirydd fod yn unigolyn ymrwymedig a brwdfrydig a all wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n gwaith.

Bydd y Cadeirydd yn arwain y Bwrdd wrth fonitro gwaith AGC a chraffu arno er mwyn ein helpu i gyflawni eich nodau a'n blaenoriaethau sefydliadol ar gyfer 2025-30 a thu hwnt.

Fel Cadeirydd y Bwrdd, byddwch yn gweithio'n agos gyda Phrif Arolygydd AGC a'r uwch-dîm rheoli. Darperir cymorth ysgrifenyddol i'r Bwrdd gan AGC.

Disgwylir i chi fynychu a chadeirio holl gyfarfodydd y Bwrdd. Caiff cyfarfodydd eu cynnal deirgwaith y flwyddyn ar hyn o bryd a hynny ar-lein dros Microsoft Teams. Cynhelir cyfarfodydd fel arfer rhwng 9.30 a 12.30. Bydd y Cadeirydd a Phrif Arolygydd AGC yn cytuno ar ddyddiadau'r cyfarfodydd cyn dechrau pob blwyddyn galendr.

Yn ogystal â chyfarfodydd y Bwrdd, bydd disgwyl i chi gyfarfod â'r Prif Arolygydd cyn pob cyfarfod Bwrdd i drafod eitemau arfaethedig ar yr agenda a chytuno arnynt. Ar ôl pob cyfarfod, bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn llunio cofnodion drafft o'r trafodaethau i chi eu hadolygu cyn eu dosbarthu ag aelodau'r Bwrdd.

4. Y Broses Gwneud Cais

Cyflwynwch **ddatganiad personol heb fod yn fwy na dwy ddalen A4** sy'n ateb y tri chwestiwn canlynol:

- **Cwestiwn 1** – Beth sy'n eich denu i rôl Cadeirydd Bwrdd Cyngori Cenedlaethol AGC?
- **Cwestiwn 2** – Pa sgiliau rydych yn meddu arnynt i gefnogi a thynnu sylw at broffil AGC?
- **Cwestiwn 3** – Mae gan bobl yr hawl i ddweud eu dweud a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'r gwasanaethau gofal a gânt. Beth yw eich profiad yn y maes pwysig hwn?

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Wrth gyflwyno eich cais, nodwch eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn yn ogystal â'ch man gwaith a'ch rôl bresennol, os yw'n gymwys.

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn hanner dydd ar **20 Tachwedd 2026** fan bellaf drwy anfon e-bost i AGC.SwyddfarPrifArolygydd@llyw.cymru neu drwy'r post i: Swyddfa'r Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

5. Y Broses Ddethol

Bydd panel dethol yn ystyried eich datganiad personol ac yn cynnal ymarfer sifftio cychwynnol. Bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn rhoi gwybod i chi os yw eich cais yn llwyddiannus / aflwyddiannus ar y cam hwn.

Gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i gael trafodaeth anffurfiol â'r panel dethol i drafod eu haddasrwydd ar gyfer y rôl hon. Caiff y drafodaeth hon ei chynnal yn bersonol neu dros Microsoft Teams, yn dibynnu ar leoliad yr ymgeisydd, a hynny yng nghanol mis Rhagfyr.

Rhoddir gwybod i ymgeiswyr am benderfyniad y panel dethol erbyn diwedd mis Rhagfyr. Caiff y Cadeirydd newydd ei gyhoeddi'n ffurfiol yng nghyfarfod y Bwrdd ar 11 Chwefror 2027 i ymgymryd â'r rôl o 1 Ebrill 2027.

6. Ymholiadau

Os byddwch yn dymuno cael trafodaeth anffurfiol ynghylch y rôl hon neu os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y broses benodi, cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd drwy anfon e-bost i:
AGC.SwyddfarPrifArolygydd@llyw.cymru

7. Telerau Penodi

Cydnabyddiaeth ariannol

Swydd ddi-dâl a gwirfoddol yw hon ond caiff costau teithio a chynhaliaeth (treuliau) eu had-dalu.

Ymrwymiad amser

Tua phum diwrnod gwaith y flwyddyn gan gynnwys tri chyfarfod Bwrdd ar-lein.

Hyd gwasanaeth

Caiff y Cadeirydd ei benodi am hyd at ddau dymor o dair blynedd.

Atodiad A

Bwrdd Cyngtori Cenedlaethol AGC Cylch Gorchwyl

Rôl y Bwrdd Cyngtori Cenedlaethol

1. Mae'r Bwrdd Cyngtori Cenedlaethol (y Bwrdd) yn cynnig arbenigedd a chynghor i helpu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant er mwyn sicrhau llesiant pobl Cymru.
2. Bydd y Bwrdd yn gwneud y canlynol:
 - Bod yn llais i ddinasyddion a rhanddeiliaid drwy rannu gwybodaeth a dealltwriaeth o safon gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol.
 - Helpu AGC i osod ei blaenoriaethau strategol a datblygu ei chynlluniau gwaith.
 - Monitro a herio lefelau cyflawni a pherfformiad AGC.
3. Bydd y Bwrdd hefyd yn codi ymwybyddiaeth o waith AGC drwy ei rwydweithiau a'i sianeli ei hun.

Aelodaeth

4. Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd ac uchafswm o 25 o aelodau.
5. Caiff aelodau eu dewis i adlewyrchu gwahanol ranbarthau Cymru, yr amrywiaeth o wasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol a reoleiddir gan AGC ac amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol pobl Cymru.
6. Bydd y Bwrdd bob amser yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol. Bydd yr unigolyn yn cael ei enwebu gan ei sefydliad ei hun a rhoddir gwybod i ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, gan gynnwys pan fydd unrhyw newidiadau o ran y cynrychiolwyr.
7. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnig amrywiaeth o sgiliau a phrofiad, gan gynnwys:
 - Gwasanaethau gofal cymdeithasol, meddygol a nyrsio.
 - Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
 - Sectorau gwirfoddol neu grwpiau cymunedol perthnasol.
8. Bydd penodiadau i'r Bwrdd yn cael eu gwneud gan y Cadeirydd a'r Prif Arolygydd.

9. Bydd y Cadeirydd ac aelodau eraill yn cael eu penodi am hyd at ddau dymor o dair blynedd i ddechrau ac ystyrir eu hailbenodi ar ddiwedd yr ail dymor.

10. Bydd y Cadeirydd yn cael ei benodi gan Brif Arolygydd AGC a dau aelod annibynnol o'r panel.

Presenoldeb

11. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod tair gwaith y flwyddyn a chaiff cyfarfodydd eu cynnal yn rhithwir dros Microsoft Teams neu ledled Cymru.

12. Os na fydd aelodau yn gallu mynychu cyfarfod, byddant yn hysbysu'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

13. Bydd swydd aelod ar y Bwrdd yn dod i ben os bydd yn absennol heb ganiatâd y Cadeirydd am dri chyfarfod yn olynol.

14. Os bydd aelod yn dymuno ymddiswyddo, rhaid iddo wneud hynny drwy ysgrifennu at y Cadeirydd.

Ymddygiad

15. Bydd aelodau yn hyrwyddo ac yn dangos gwerthoedd AGC (uniondeb; parch; gofalgarg; teg; proffesiynol) ac yn parchu Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb; uniondeb; gwrthrychedd; atebolrwydd; bod yn agored; gonestrwydd; arweinyddiaeth).

16. Rhaid i gyfarfodydd roi cyfleoedd i bob aelod gyfrannu at drafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Gwrthdaro buddiannau

17. Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai ddylanwadu, neu y gellid ystyried eu bod yn dylanwadu, ar eu barn yn eu rôl fel aelod o'r Bwrdd.

18. Os bydd mater penodol yn arwain at achos posibl o wrthdaro buddiannau, bydd yn ofynnol i'r aelod hysbysu'r Cadeirydd ymlaen llaw a thynnu'n ôl o'r broses o drafod neu ystyried y mater hwnnw.

19. Bydd ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn cynnal Cofrestr o fuddiannau aelodau.

20. Bydd buddiannau aelodau yn cael eu harchwilio bob blwyddyn.

Treuliau

21. Bydd aelodau'r Bwrdd yn cael ad-daliad am dreuliau teithio, cynhaliaeth a gofalwyr rhesymol yr eir iddynt wrth fynychu cyfarfodydd.

22. Rhaid cyflwyno hawliadau i ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, gan gynnwys y derbynebau perthnasol.

Ysgrifenyddiaeth

23. Bydd AGC yn darparu cymorth ysgrifenyddol i'r Bwrdd gan gynnwys comisiynu eitemau a phapurau ar gyfer yr agenda drwy ddosbarthu agenda ddrafft ymlaen llaw.

24. Cadeirydd a Phrif Arolygydd AGC fydd yn gyfrifol am drefnu a chymeradwyo'r agenda.

25. Bydd AGC yn darparu gwybodaeth amserol a pherthnasol i aelodau'r Bwrdd er mwyn i'r aelodau allu rhoi cyngor a gwneud argymhellion priodol.

Rhestr Aelodaeth

Cadeirydd

Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

CWLWM

Fforwm Gofal Cymru

Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Swyddog Blynyddoedd Cynnar yr Awdurdod Lleol

Llais

Darparwr, Cartref Gofal Plant

Darparwr, Cartrefi i Oedolion Hŷn

Gofalwr a defnyddiwr gwasanaeth (gwasanaethau oedolion)

Darparwr, Canolfan Breswyl i Deuluoedd

Perthynas i rywun sy'n derbyn cymorth (gwasanaethau oedolion)

Darparwr - gwasanaeth cymorth cartref (sydd hefyd yn ofalwr maeth)

Darparwr - gofal dydd llawn

Darparwr - gwasanaeth cymorth cartref (rhiant i blentyn anabl)

Gofalwr (gwasanaethau oedolion)

Cynrychiolydd staff AGC